

Trosolwg a Chraffu

Canllawiau ar gyfer Aelodau Etholedig (2021-2022)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf



RHONDDA CYNON TAF



Cynnwys

Adran 1	3	Adran 3	10
Cyflwyniad a Chyd-destun - Trosolwg a Chraffu	3	Sut rydyn ni'n craffu?	10
Beth yw diben Craffu?	3	• Ymgynghoriadau cyn y cam craffu	10
Beth yw Trosolwg a Chraffu?	4	• Adolygu Polisi	10
Beth yw rôl Aelod o'r Pwyllgor Craffu?	4	• Monitro Cyflawniad	11
Adran 2	5	• Gweithgorau Craffu	11
Strwythur Craffu yn Rhondda Cynon Taf	5	• Galw i Mewn	12
Y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu:	5	• Pa benderfyniadau y gellir eu galw i mewn?	12
• Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	5	• Sut gall Aelodau fynd ati i alw penderfyniad i mewn?	12
• Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	6	Gwahoddiad i gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu:	13
• Pwyllgor Craffu – Iechyd a Lles	6	• Dulliau Holi	13
• Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad	7	Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgorau Craffu	14
• Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant	7	Canlyniadau ac Effaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	14
Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu	8	Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	14
Trefniadau Craffu ar y Cyd:	8	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	15
• Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf	8	Adroddiad Blynyddol - Trosolwg a Chraffu	15
• Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu - Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd	8	Adran 4	16
Aelodaeth Pwyllgorau:	9	Llunio Blaenraglen Waith	16
• Cynrychiolwyr Cofrestredig ac Aelodau Cyfetholedig	9	• Sesiynau Ymgysylltu'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ..	17
• Cworwm	9	Adran 5	18
		Rôl y Swyddogion Craffu	18
		Cyfleuster Ymchwil	19
		Ymgysylltu a Chyfranogiad	19
		Calendr o Gyfarfodydd	19
		Gwasanaeth Cyfieithu	19
		Atodiadau:	20
		Atodiad 1	
		Ffurflen Galw i Mewn	20
		Atodiad 2	
		Ffurflen Gais y Pwyllgorau Craffu (Rhaglen Waith)	21
		Atodiad 3	
		Ffurflen Gais - Ymchwil a Chraffu	22
		Atodiad 4	
		Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu	23-27

Adran 1

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Cyflwyniad a Chyd-destun - Trosolwg a Chraffu

Mae'r ddogfen yma wedi'i llunio er mwyn i'r Aelodau Etholedig a Swyddogion y Cyngor ei defnyddio. Mae'r ddogfen yn disgrifio fframwaith ar gyfer gwaith Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Nod y pecyn cymorth yma yw rhoi gwybodaeth a chanllawiau ymarferol ac eglur i bawb sydd ynghlwm â'r broses trosolwg a chraffu sydd ar waith yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Lluniwyd y pecyn cymorth yma gyda chymorth amrywiaeth o ffynonellau, mae'n cynnwys sawl enghraifft o arfer da wedi'u dewis o Awdurdodau Arweiniol yn y maes.

Bydd y pecyn cymorth yn galluogi Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i sicrhau eu bod nhw'n canolbwyntio ar faterion sydd o bwys i drigolion Rhondda Cynon Taf. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein helpu ni i chwarae rôl sylweddol wrth lunio cyfeiriad ar gyfer y dyfodol y Cyngor er budd ei drigolion.

Yn unol â thelerau Deddf Llywodraeth Leol 2000, mae pob Awdurdod yng Nghymru a Lloegr wedi mabwysiadu trefniadau rheoli materion gwleidyddol. Yn rhan o'r trefniadau gwleidyddol yma, mae gan y Broses Trosolwg a Chraffu sawl pwrpas. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella atebolrwydd mewn perthynas â phenderfyniadau a chyflawniad;
- Sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu anghenion etholwyr a grwpiau cymunedol drwy sicrhau bod Aelodau Etholedig a'r cyhoedd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau;
- Cefnogi rôl Arweinyddiaeth Gymunedol y Cyngor drwy ddadansoddi dulliau amrywiaeth o Bartneriaid ac asiantaethau allanol o ran materion sy'n effeithio ar y gymuned ehangach.

Beth yw diben Craffu?

Diben craffu yw gwella bywydau pobl leol trwy wella gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n bwysig bod gwaith craffu yn ychwanegu gwerth ac yn gwneud gwahaniaeth i'r Cymunedau y mae'r Cyngor yn eu gwasanaethu.

Er bod nifer o rolau posib yn bodoli ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, mae'n bosibl rhannu'r rhain yn ddwy swyddogaeth allweddol:

1. Dwyn yr Adain Weithredol i gyfrif

Mae hyn yn cynnwys adolygu penderfyniadau'r Adain Weithredol, monitro cyflawniad mewn perthynas â rhoi polisïau'r Cyngor ar waith a darpariaeth y gwasanaeth, yn ogystal â monitro cyfeiriad strategol yr Awdurdod i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion y gymuned leol.

2. Adolygu'r Polisi

Trwy weithredu fel ymgynghorai ar gynigion polisi neu gynnal ymchwiliadau manwl mewn perthynas â meysydd polisi, mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn llunio argymhellion polisi ar gyfer y Cabinet neu'r Cyngor.

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfarwyddyd i Aelodau mewn perthynas â chyflawni proses Trosolwg a Chraffu Rhondda Cynon Taf. Bydd y broses hon yn galluogi'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu i gyflawni'i rôl a'r dibenion sydd wedi'u nodi uchod.

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Beth yw Trosolwg a Chraffu?

Nid Corff sy'n gwneud penderfyniadau yw'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, mae rôl y Pwyllgor yn ymwneud â gwaith craffu ac adolygu polisïau, gan godi ymwybyddiaeth o faterion pwysig a phenderfyniadau y bydd yr Awdurdod yn eu gwneud. Mae'r broses trosolwg a chraffu yn cynnig cyfle i Gynghorwyr a chynrychiolwyr allanol, mewn rhai achosion, archwilio swyddogaethau amrywiol y Cyngor, holi cwestiynau ynghylch sut mae'r penderfyniadau'n cael eu gwneud a thrafod a oes modd gwella'r gwasanaethau. Mae'n rhoi cyfle i Gynghorwyr hyrwyddo materion sy'n peri pryder a chyfrannu at waith datblygu polisïau newydd. Mae'n hwyluso'r ddatl ynghylch blaenoriaethau, y gyllideb, strategaeth y Cyngor a'i weledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol sy'n diwallu anghenion a dyheadau'r gymuned leol. Ni ddylai'r Pwyllgor osgoi'r angen i herio a chwestiynu penderfyniadau a gwneud argymhellion ar sail y dystiolaeth y mae'r pwyllgor wedi'i chlywed ac a fydd yn arwain at wella'r gwasanaeth yn y maes hwnnw.

Mae rôl y pwyllgor Trosolwg a Chraffu hefyd yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cynnwys y cyhoedd a chynnal dadl, gan gefnogi'r Cyngor gyda'r broses o fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned a chyflwyno syniadau newydd a phrofiad ehangach i broses y Cyngor.

Mae angen dulliau newydd o weithio a sgiliau gwahanol. Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn effeithiol, mae angen sicrhau bod y gwaith yn cael ei arwain gan Aelodau ac yn cael ei ystyried yn gyfaill beirniadol. Mae'n bwysig nodi ym mha feysydd y mae modd gwella penderfyniadau a pha newidiadau cadarnhaol y mae modd eu gwneud.

Beth yw rôl Aelod o'r Pwyllgor Craffu?


- Cynorthwyo â gwaith llunio polisïau gweithredol a pholisïau a phenderfyniadau'r Cyngor - gan ddarparu gwybodaeth, opsiynau a barn;
- Monitro penderfyniadau'r adain weithredol a'r Cyngor;
- Monitro a herio ansawdd y gwasanaeth a ddarperir;
- Holi Aelodau, staff, swyddogion sydd ddim yn gweithio i'r sefydliad a'r cyhoedd mewn perthynas ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â gwasanaethau'r Cyngor a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus;
- Cynnal adolygiadau manwl o bolisïau a gwasanaethau ac argymell gwelliannau;
- Mae craffu yn darparu rôl allweddol i'r Aelodau hynny nad ydyn nhw ynghlwm â gwaith y Cabinet;
- Gweithredu fel cyfaill beirniadol;
- Rhaid bod yn annibynnol - ni ddylid defnyddio Chwip y Blaid yn rhan o waith Craffu;
- Dylai'r gwaith adlewyrchu llais a phryderon y cyhoedd;
- Arfer yr hawl i 'alw i mewn', er mwyn ailystyried penderfyniadau sydd wedi'u gwneud, ond sydd heb eu gweithredu eto gan yr Adain Weithredol neu benderfyniadau dirprwyedig gan swyddogion allweddol.

Adran 2

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Strwythur Craffu Rhondda Cynon Taf

Mae strwythur y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** cyffredinol a 4 Pwyllgor Craffu thematig. Mae'r Pwyllgorau yma'n gorchwyllo penderfyniadau'r Cabinet (yr Adain Weithredol) ac yn cefnogi gwaith y Cabinet a'r Cyngor. Drwy gynnal cyfarfodydd cyhoeddus mewn perthynas â materion sydd o bryder lleol, mae'r pwyllgorau yma'n caniatáu i drigolion ddweud eu dweud o ran materion y Cyngor. Mae'r gwaith yma'n arwain at adroddiadau ac argymhellion, sy'n cynghori'r Adain Weithredol a'r Cyngor ar eu polisiau, cyllideb a darpariaeth gwasanaeth.



Mae'r **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu** yn gyfrifol am:

- Adolygu a datblygu polisiau ar gyfer pob maes gwasanaeth y Cyngor
- Trafod rhoi cynlluniau fydd yn effeithio ar y Cyngor ar waith; e.e. Y Fargen Ddinesig, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Diogelu
- Craffu ar gynlluniau a strategaethau corfforaethol.
- Trosedd ac Anhrefn*
- Herio gwaith y Pwyllgorau Craffu

*Trosedd ac Anhrefn

Ers 2009, mae gofyn i'r Cyngor sicrhau bod ganddo Bwyllgor Trosolwg a Chraffu sydd â'r gallu i adolygu neu graffu ar benderfyniadau sydd wedi'u gwneud neu gamau gweithredu wedi'u cymryd gan yr awdurdodau cyfrifol mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau trosedd ac anrhefn y Cyngor a; llunio adroddiadau neu argymhellion ar gyfer y Cyngor neu'r Cabinet fel sydd wedi'i bennu gan gyfrifoldeb am swyddogaeth, mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau hynny. Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yw Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn dynodedig y Cyngor (yn unol â Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006).

Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc

Mae'r Pwyllgor Craffu - Plant a Phobl Ifainc yn gyfrifol am:

- Ysgolion
- Y Blynyddoedd Cynnar
- Anghenion Addysgol Arbennig
- Plant sy'n Derbyn Gofal
- Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc
- Diogelu
- Gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar - gan gynnwys meithrinfeydd, Dechrau'n Deg a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth
- Arlwyo
- Carfanau Asesu a Chynllunio Gofal

Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles

Mae'r Pwyllgor Craffu - Iechyd a Lles yn gyfrifol am:

- Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Addysg i Oedolion
- Gwasanaethau Hamdden
- Diwylliant a'r Celfyddydau
- Tai Preifat
- Canolfannau yn y Gymuned
- Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad

Mae'r Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad yn gyfrifol am:

- Adroddiadau Cyflawniad Chwarterol / Adroddiadau Eithriedig
- Rheoli'r Trysorlys
- Y broses ymgynghori mewn perthynas â'r gyllideb refeniw
- Gofynion statudol o ran adrodd ar gyflawniad
- Gosod targedau ar gyfer mesurau cyflawniad
- Monitro sut mae penderfyniadau sy'n ymwneud â chynllunio gwasanaeth tymor canolig ac sydd wedi'u cymeradwyo gan yr Adain Weithredol yn cael eu rhoi ar waith
- Adfywio strategol
- Datblygiad economaidd
- Canol trefi
- Achlysuron a Thwristiaeth
- Twf Swyddi a Sgiliau

Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant

Mae'r Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant yn gyfrifol am y canlynol:

- Yr Amgylchedd a Datblygu Dulliau Cynaliadwy
- Gwasanaethau Gwastraff
- Gofal y Strydoedd
- Gwella'r Priffyrdd
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Treftadaeth
- Llyfrgelloedd
- Gwasanaeth Parciau a Chefn Gwlad
- Mannau chwarae

Mae modd dod o hyd i Gylch Gorchwyl pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor [**yma**](#)

Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

Mae cyfarfodydd y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu yn cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu'r Cyngor a Chadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu BGC Cwm Taf. Pwrpas y grŵp yw cefnogi a chryfhau swyddogaethau Craffu'r Cyngor trwy nodi arfer gorau, sicrhau bod pob pwyllgor craffu yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau gwerth ychwanegol a gweithredu unrhyw newidiadau i'r broses graffu. Byddan nhw'n trafod eitemau busnes sy'n berthnasol i'r holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu a lle mae mater i'w ystyried yn destun craffu o fewn cylch gwaith mwy nag un Pwyllgor Craffu, mae modd i'r Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu benderfynu pa Bwyllgor fydd yn gyfrifol am arwain ar y mater.

Trefniadau Craffu ar y Cyd

Mae gan y Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu gynrychiolwyr o ddau Awdurdod Lleol neu'n rhagor lle ac maen nhw'n trafod materion trawsffiniol. Mae'r Awdurdod yn rhan o ddau Gydbwyllgor Craffu. [Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#) (JOSC) a [Chydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf](#) (CCRCDD).

Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Er mwyn sicrhau bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn atebol yn ddemocrataidd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod gofyniad ar Gynghorau i bennu pwyllgor trosolwg a chraffu a fydd yn gyfrifol am graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB), adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC yn ogystal ag unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud neu gamau sy'n cael eu rhoi ar waith gan y BGC. Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys 5 aelod o RCT (wedi'u tynnu o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor) a 5 aelod o Gyngor Merthyr Tudful, sy'n cwrdd bob chwarter i gyflawni eu rôl.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn cynnwys deg Awdurdod Lleol: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg. Caiff gwaith craffu ar y Fargen Ddinesig ei gynnal bob chwarter gyda ffocws ar p'un a yw'n gweithredu yn unol â'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd, ei Gynllun Busnes Blynyddol, ei amserlen ac i fonitro cynnydd yn erbyn Cynllun y Rhaglen.

Aelodaeth Pwyllgorau

Mae'r **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu**, fel y pedwar pwyllgor craffu thematig, yn cynnwys 14 aelod gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Mae'r aelodau'n cynrychioli ardaloedd ar draws yr awdurdod lleol ac mae cydbwysedd o safbwynt pleidiau gwleidyddol, gan eithrio Aelodau Gweithredol. Caiff Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau eu penodi bob blwyddyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, ac eto, maen nhw'n adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor. Caiff Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau a Ffyniant, Plant a Phobl Ifainc ac Iechyd a Lles eu penodi i'r Pwyllgor Craffu – Cyllid a Chyflawniad.

Cynrychiolwyr Cofrestredig ac Aelodau Cyfetholedig

Ymhlith aelodau'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc, sy'n craffu ar Addysg yn rhan o'i Gylch Gorchwyl, mae'r cynrychiolwyr canlynol, a all fwrw pleidlais:

- Un cynrychiolydd o Ysgolion Eglwysig (Naill ai Ysgolion Eglwys Gatholig Rhufain neu'r Eglwys yng Nghymru);
- Bydd tri chynrychiolydd rhiant-lywodraethwr yn cael eu hethol i wasanaethu fel aelodau cyfetholedig a all fwrw pleidlais ar y Pwyllgor Craffu y mae ei swyddogaeth yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â swyddogaethau addysg;
- Mae un cynrychiolydd o'r sector cyfrwng Cymraeg a dau o'r sector cyfrwng Saesneg.
- Mae gan riant-lywodraethwyr yr hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud ag unrhyw swyddogaethau addysg y mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol amdano;
- Dylai tymor rhiant-lywodraethwr bara pedair blynedd, neu hyd at amser lle nad yw cynrychiolydd yn gymwys i gyflawni'r rôl. Os nad yw cynrychiolydd rhiant-lywodraethwr yn cwblhau cyfnod llawn, bydd y person sy'n ymgymryd â'i rôl ef/hi yn cyflawni'r rôl honno hyd at ddiwedd y tymor gwreiddiol.

Mae'r cynrychiolwyr hyn yn rhan o'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc y sy'n blaenoriaethu materion Addysg. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Aelodau cyfetholedig hyn fod yn aelod o'r Pwyllgor. Hefyd, mae modd iddyn nhw fynychu'r cyfarfod yn aelod sydd â hawl i fwrw pleidlais i gyfrannu at bob elfen o'r gwaith craffu, gan bleidleisio ar faterion o fewn cylch gorchwyl addysg. Cân nhw hefyd gynnig cyngor a gwybodaeth i'r Pwyllgor yn seiliedig ar eu sgiliau, gwybodaeth ac arbenigedd penodol. Nid oes disgwyl iddyn nhw fynd i gyfarfodydd lle nad yw materion addysg yn cael eu trafod.

Cworwm

Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfarfod Craffu yw chwarter yr holl Aelodau. Os nad oes cworwm yn bresennol yn ystod y cyfarfod, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio ar unwaith. Bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried ar amser a dyddiad sy'n cael eu pennu gan y Cadeirydd neu os nad oes dyddiad penodol yn cael ei nodi, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried yn y cyfarfod arferol nesaf.

Adran 3

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Sut rydyn ni'n Craffu?

Mae modd i'r broses graffu ddigwydd mewn sawl fformat gwahanol. Fel rheol, mae gofyn am adroddiad ffurfiol i'w drafod mewn cyfarfod Pwyllgor ffurfiol. Dylai'r adroddiadau fod yn glir, yn gryno ac yn hawdd eu darllen ac yn hygyrch. Mae rhestr o dermau a ddefnyddir yn aml ynghlwm yn **Atodiad 4**

Ymgynghoriadau cyn y cam Craffu

Mae gwaith cyn y cam craffu fel arfer yn cael ei gynllunio wrth lunio rhaglen waith, mae modd i hyn ddigwydd cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad. Mae cyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu nodi unrhyw faterion yn rhaglen waith y Cabinet, fel penderfyniadau sydd ar ddod neu ddatblygiadau polisi, sydd angen bod yn destun gwaith cyn y cam craffu. Mae trafod penderfyniadau cyn iddyn nhw gael eu gwneud yn rhoi cyfle i ddylanwadu ar y rhain a gwella arnyn nhw. Mae modd trafod sut y cafodd y penderfyniad ei wneud, y risgiau cysylltiedig, a pha gynlluniau sydd ar waith i'w lliniaru.

Mae gwaith cyn y cam craffu hefyd yn caniatáu i Bwyllgorau Craffu drafod a gwerthuso gwaith ymgynghori a gynhaliwyd, ac i ba raddau y cafodd y canlyniadau eu hystyried wrth wneud y penderfyniad terfynol.

Adolygu Polisi

Dyma sut mae prif waith craffu yn RhCT yn cael ei gynnal. Bydd cyfle i aelodau bennu materion ac amcanion allweddol wrth ddatblygu eu rhaglen waith. Trwy'r broses hon byddan nhw'n nodi rhanddeiliaid allweddol ac yn penderfynu pa dystiolaeth y mae angen ei chasglu cyn y cyfarfod.

Yn y cyfarfodydd craffu, bydd aelodau'n gwerthuso'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno iddyn nhw trwy holi pobl a gwahoddwyd i siarad. Yna bydd yr aelodau, gyda chymorth y Cadeirydd a'r Swyddog Craffu, yn ystyried y dystiolaeth ac yn gwneud argymhellion ar y sail honno. Yna bydd Swyddogion Craffu yn olrhain cynnydd yr argymhellion ac yn gwerthuso ac asesu eu heffaith ar gyfer yr adroddiad Blynyddol.

Monitro Cyflawniad

Mae Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n monitro cyflawniad y Cabinet, Pwyllgorau a Swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol, amcanion polisi, targedau cyflawniad a meysydd gwasanaeth penodol.

Gall hyn amrywio o strategaethau monitro a'u cynlluniau gweithredu cysylltiedig i werthuso cyflawniad yr awdurdod yn erbyn ei Gynllun Corfforaethol, ei amcanion gwella a'i ddangosyddion cyflawniad lleol a chenedlaethol. Mae'r canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a sicrhau bod tystiolaeth yn cefnogi'r canlyniadau yma'n rhan ganolog o'r gwaith.

Gweithgorau Craffu

Grwpiau anffurfiol, bach â therfyn amser sy'n cynnwys Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig a enwebwyd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol ar gyfer portffolio y pwnc sy'n cael ei ystyried yw'r Gweithgorau.

Mae'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn penderfynu ar bwy fydd aelodau'r Gweithgor. Mae cylch gorchwyl y Gweithgor yn cael ei bennu yn y cyfarfod cyntaf, a chaiff y Cadeirydd ei enwebu yn y cyfarfod hwnnw hefyd.

Bydd y Gweithgor yn cynnal sawl cyfarfod, a bydd y cyfarfod cyntaf yn gyfle i ddeall gwaith y Gweithgor a phennu sut y bydd y Gweithgor yn mynd i'r afael ag ef. Bydd yr aelodau'n penderfynu:

- Pa ymchwil sydd angen ei gwneud
- Sut y dylid cyflwyno'r wybodaeth i'r Aelodau (adroddiad, cyflwyniadau, ymweliadau safle, data)
- Pa dystion y dylid eu gwahodd i roi tystiolaeth
- Pa ganlyniadau y mae'r Gweithgor yn rhagweld y bydd modd eu cyflawni
- Sut y gallai'r canlyniadau fod o fudd i'r Gymuned sydd wedi'i heffeithio

Bydd y Gweithgor yn parhau i gwrdd nes iddo ddod i gasgliadau. Mae hyn fel arfer yn cymryd rhwng 2 a 4 cyfarfod. Bydd adroddiad yn cael ei ddrafftio gan y Swyddog Craffu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu perthnasol i'w gymeradwyo, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer ymateb ffurfiol i'r Pwyllgor.

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Galw i Mewn

Diben 'Galw i Mewn' yw ymateb i benderfyniadau sydd wedi'u gwneud ond heb eu rhoi ar waith. Mae gan y Pwyllgor Craffu bŵer i ymateb i benderfyniad yr Adain Weithredol drwy 'alw i mewn' ac oedi rhoi'r penderfyniad ar waith. Pwrpas 'Galw i Mewn' yw caniatáu i'r Pwyllgor Craffu drafod y pwnc a phenderfynu a ddylid cyfeirio'r mater yn ôl at yr Adain Weithredol i'w ailystyried.

Dylid defnyddio Galw i Mewn mewn amgylchiadau eithriadol yn unig er mwyn osgoi oedi yn ystod y broses benderfynu. Mae modd i drefniadau effeithiol cyn y cam craffu osgoi'r angen i alw i mewn.

Pa benderfyniadau y gellir eu galw i mewn?

Pan fydd y Cabinet, Aelod unigol o'r Cabinet, un o Bwyllgorau'r Cabinet neu Bwyllgor Ardal o dan drefniadau ar y cyd yn gwneud penderfyniad neu os bydd Penderfyniad Allweddol yn cael ei wneud gan Swyddog (o dan y Cynllun Dirprwy Cyffredinol), rhaid iddo fod wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan y swyddog priodol cyfrifol cyn pen 2 ddiwrnod gwaith ar ôl ei wneud.

Fydd Galw i Mewn ddim yn berthnasol pan fydd y penderfyniad sy'n cael ei wneud gan y Cabinet yn cael ei ystyried yn benderfyniad brys. Bydd penderfyniad yn un brys os ystyrir bod modd i'r oedi a achosir gan y broses galw i mewn arwain at niweidio'r Cyngor neu les y cyhoedd.

Sut gall Aelodau fynd ati i alw penderfyniad i mewn?

Mae'r terfynau amser ar gyfer cyflwyno cais galw i mewn yn dynn er mwyn sicrhau nad yw'r penderfyniadau a fwriadwyd yn cael eu gohirio'n ormodol. Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu (neu'r Swyddog Monitro yn absenoldeb y Gyfarwyddwr) dderbyn ceisiadau galw i mewn cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl i benderfyniad y Cabinet gael ei gyhoeddi. Rhaid galw penderfyniad i mewn trwy gwblhau'r ffurflen Galw i Mewn ofynnol (atodiad 1).

- Rhaid derbyn ffurflen Galw i Mewn cyn pen 3 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi penderfyniad;
- Rhaid i 3 aelod nad ydyn nhw'n rhan o'r adain weithredol lofnodi ffurflen Galw i Mewn - naill ai (i) aelodau o 2 grŵp gwleidyddol gwahanol, o leiaf, neu (ii) yn achos Aelodau heb eu dyrannu - yr Aelod(au) heb ei ddyrannu ac Aelod(au) grŵp gwleidyddol) er mwyn i benderfyniad gael ei alw i mewn;
- Dim ond cyfanswm o 3 phenderfyniad y mae modd i Bwyllgor Craffu eu galw i mewn yn ystod bob cyfnod o 2 fis (unwaith bydd aelod wedi llofnodi cais 'Galw i Mewn', ni chaiff wneud hynny eto nes bod y cyfnod o 3 mis wedi dod i ben);
- Yn unol â pharagraff 17 (galw i mewn) uchod, fydd dim modd i aelod sydd wedi llofnodi ffurflen galw i mewn wneud hynny eto nes bod y cyfnod o 2 fis wedi dod i ben;
- Ni chaiff unrhyw aelod Cyfetholedig o faes Addysg alw penderfyniad i mewn.

Os yw'r ffurflen Galw i Mewn yn bodloni'r gofynion a amlinellir yng Nghyfiansoddiad y Cyngor, bydd y Swyddog Priodol yn trefnu cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, lle bo hynny'n bosibl, ar ôl ymgynghori â Chadeirydd / Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu o fewn 5 diwrnod gwaith o gyflwyno'r penderfyniad i alw i mewn. Ar ôl i benderfyniad gael ei alw i mewn, caiff ei ohirio a ni chaiff y penderfyniad ei roi ar waith hyd nes iddo gael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Gwahoddiadau i Gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

Swyddogion y Gyfarwyddiaeth

Mae modd i bwyllgorau ei gwneud hi'n ofynnol i'r Arweinydd ac unrhyw aelod arall o'r Cabinet, Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a/neu unrhyw un o Uwch Swyddogion y Cyngor fynychu cyfarfod Pwyllgor i gynorthwyo gyda materion sy'n cael eu trafod.

Bydd y Cadeirydd yn gwahodd swyddog(ion) i gyflwyno adroddiad / rhoi tystiolaeth ac ymateb i gwestiynau llafar neu ddarparu tystiolaeth y gofynnwyd amdani, neu gyfuniad o'r ddau.

Gwahodd Pobl Allanol

Mae modd i'r Pwyllgor wahodd unrhyw gynrychiolydd allanol i fod yn bresennol ond ar hyn o bryd does ganddo ddim pwerau i'w gwneud yn ofynnol i'r cynrychiolydd hwnnw fod yn bresennol ac eithrio pan fydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol yn trafod eitem yn ymwneud â Throsedd ac Anhrefn. Wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â throsedd ac anhrefn, mae modd i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu fynnu bod swyddog neu weithiwr awdurdod cyfrifol neu berson neu gorff sy'n cydweithredu yn ateb cwestiynau, ar ôl rhoi rhybudd rhesymol. Bydd presenoldeb pobl allanol sydd wedi'u gwahodd i Gyfarfodydd Pwyllgor yn dilyn yr un weithdrefn â'r un a nodir uchod ar gyfer Swyddogion adrannol.

Dulliau Holi

Mae gofyn cwestiynau da yn rhan hanfodol o fod yn Gyfaill Beirniadol da ac yn nodwedd bwysig o graffu da. Mae paratoi, ymchwilio i'r pwnc dan sylw a gwybod pa gwestiynau i'w gofyn yn allweddol er mwyn gofyn cwestiynau'n effeithiol er mwyn cael ateb clir a chynhwysfawr i'ch ymholiad.

Mae cwestiynau agored yn caniatáu i'r tyst rannu cymaint o wybodaeth ag sydd ganddo. Bydd annog y tyst i ymhelaethu a chaniatáu amser iddo ateb y cwestiwn yn cynnig atebion mwy manwl. Mae ymadroddion defnyddiol e.e. 'Sut, Pam, Pwy, Beth a Phryd' yn aml yn cael eu defnyddio ynghyd â chwestiynau sy'n annog rhywun i fyfyrto, e.e. "rydych chi wedi dweud hynny..." "Mae'n ymddangos eich bod chi..." yn cynnig cyfle i'r person sy'n ymateb gynnig ateb mwy manwl i'r pwnc.

Sgiliau Eraill

Sgiliau Gwrando - gwrando'n astud ar eraill sydd â barn wahanol i'ch barn chi.

Sgiliau Dadansoddi - y gallu i adolygu a dehongli data a dod i gasgliadau.

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Casgliadau ac Argymhellion y Pwyllgor Craffu

Ar ddiwedd pob cyfarfod o'r Pwyllgor, bydd yr Aelodau'n penderfynu ar eu casgliadau a'u hargymhellion ar gyfer y pwnc maen nhw wedi'i drafod. Mae modd i'r Pwyllgor Craffu wneud gwahaniaeth drwy gynnig argymhellion. Mae argymhelliad da...

- yn cyfeirio'n benodol at y newid a argymhellir
- yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn realistig
- yn canolbwyntio ar ddeilliannau mesuradwy
- wedi'i gyfeirio at berson neu grŵp penodol
- yn realistig o ran gofynion ariannu
- wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'r Adain Weithredol, swyddogion y Cyngor a phartneriaid y Cyngor

Canlyniadau ac Effaith y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu

Cydnabyddir nad yw dangos effaith y Pwyllgor Craffu yn broses syml. Yn RhCT, mae effaith y broses graffu yn cael ei mesur yn ôl yr argymhellion a deilliannau sy'n deillio o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu. Caiff y rhain eu crynhoi yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu. Dylid gwneud argymhellion ar y sail eu bod yn cyfrannu at wella polisïau a'r ffordd y maen nhw'n cael eu gweithredu.

Cyfrifoldeb y Pwyllgor Craffu yw monitro a gwerthuso'r holl argymhellion a wneir i sicrhau bod camau dilynol iddyn nhw a'u bod yn cael eu gweithredu'n llawn.

Mae cynnydd yr argymhellion yn cael eu holrhain yn rheolaidd. Fydd y broses ond yn dod i ben pan fydd y Pwyllgor Craffu yn fodlon bod y gwelliannau ar waith.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Derbyniodd [Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau \(Cymru\) \(Y Ddeddf\)](#) Gydsyniad Brenhinol ar 20 Ionawr 2021.

Er bod y trafodaethau ynghylch y Ddeddf yn canolbwyntio ar greu Cydbwyllgorau Corfforedig, bydd y darn sylweddol yma o ddeddfwriaeth yn newid y ffordd rydyn ni'n gweithredu ar draws ystod o feysydd, gan gynnwys diwygio etholiadol, cyfranogiad y cyhoedd, llywodraethu a rheoli cyflawniad, prosesau democrataidd a threfniadau gweithio mwy cadarn gyda Chynghorau Tref a Chynghorau Cymuned. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cryfhau trefniadau Craffu a threfniadau ar gyfer ymddygiad aelodau.

Mae'r Ddeddf yn diwygio adran 22(10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel bod modd i bwyllgorau craffu a'u his-bwyllgorau dderbyn digon o rybudd ynghylch penderfyniadau allweddol pwysig cyn iddyn nhw gael eu gwneud. Gwneir hyn fel bod modd craffu ar yr Adain Weithredol yn fwy effeithiol, a thrwy hynny gryfhau trefniadau craffu'r Awdurdod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Daeth y Ddeddf yn gyfraith ar 29 Ebrill 2015 a daeth yn ofyniad i gyrff cyhoeddus yng Nghymru o 1 Ebrill 2016. Mae'n blaenoriaethu cynaliadwyedd hirdymor o ran sut caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cynllunio a'u darparu, ac yn gofyn bod gyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth gyda'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn atal a mynd i'r afael â'r problemau dan sylw.

Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant cenedlaethol y mae gofyn i gyrff cyhoeddus eu cyflawni ac yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys pum ffordd o weithio y mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i'w hystyried. Dyma'r Nodau Llesiant ar gyfer Cymru:

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth wrth wneud penderfyniadau, mae'r Ddeddf yn cael ei drafod ym mhob adroddiad sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a hynny i sicrhau ei fod yn dangos sut mae'r Ddeddf wedi cael ei ystyried wrth lunio penderfyniad sy'n ymwneud â newid neu gyflwyno polisi.

Adroddiad Blynyddol - Trosolwg a Chraffu

Mae'r Swyddogion Craffu yn llunio adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r adroddiad yma'n rhoi manylion y gwaith y mae'r Pwyllgorau Craffu wedi'i wneud trwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiad yma'n canolbwyntio ar y meysydd y mae'r Pwyllgorau wedi'u trafod, y fethodoleg wrth archwilio materion a manylion y canlyniadau a'r effaith y maen nhw wedi'u cael gan gynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwell ffyrdd o weithio.

Mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn nodi'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn ddinesig ganlynol i sicrhau bod gan y gwaith craffu bwrpas a chyfeiriad clir ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd yr adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ac yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r adroddiad terfynol i gyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) y Cyngor.

Adran 4

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Llunio Blaenraglen Waith

Mae'r rhaglen waith yn cynrychioli cam cynllunio'r gwaith craffu lle mae Aelodau yn nodi gwaith sy'n galw am sylw pellach. Mae **rhaglen waith** craffu effeithiol yn rhan ganolog o graffu llwyddiannus ac yn sicrhau ei fod yn ystyried y materion sy'n peri pryder mawr, sy'n cael yr effaith fwyaf ac a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Dylai'r Rhaglen Waith ystyried y canlynol:

- Y gallu i newid: dylid blaenoriaethu materion y gall y Pwyllgor wir ddylanwadu arnyn nhw - Beth yw'r broblem / gweithgaredd / prosiect sy'n cael ei ystyried? Beth y mae gofyn i'r Pwyllgorau Craffu ei wneud?
- Er budd y cyhoedd: a oes unrhyw bryderon yn lleol?
- Cyflawniad: dylid blaenoriaethu meysydd lle nad yw'r Cyngor a'i Bartneriaid yn cyflawni.
- Dylid rhoi blaenoriaeth i faterion sy'n berthnasol i bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol neu ran fawr ohoni
- Dyblygu: rhaid i raglenni gwaith ystyried beth arall sy'n digwydd er mwyn osgoi dyblygu gwaith neu waith nad oes angen ei gwblhau.
- Beth yw'r disgwyliadau/manteision sy'n gysylltiedig â chynnwys y Pwyllgorau Craffu?

Nid yw'r pynciau'n addas ar gyfer craffu:

- Os yw'r mater eisoes yn cael ei drafod yn rhan o waith arall
- Ni fyddai cynnwys y Pwyllgorau Craffu yn arwain at ddeilliannau clir
- Mae'n bosibl y bydd y pwnc dan sylw yn niweidiol i fuddiannau'r Cyngor

Dylai Rhaglen Waith gael ei datblygu yn dilyn trafodaethau gyda'r Cadeiryddion, Is-gadeiryddion ac Aelodau'r Pwyllgor, Aelodau Cabinet perthnasol a Swyddogion Arweiniol (yn rhan o sesiynau ymgysylltu â'r Aelodau Cabinet).

Mae modd i'r Rhaglen Waith gynnwys eitemau sy'n weddill o'r flwyddyn ddiwethaf, ac mae'n bosibl y bydd y Cyngor (yn achos Rhybuddion o Gynnig), y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgorau Craffu eraill yn cyfeirio eitemau ychwanegol.

Er bod y Rhaglen Waith wedi'i phennu ymlaen llaw, bydd yna rywfaint o hyblygrwydd er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n codi. Bydd y mater yn cael ei adolygu'n gyson er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith yn parhau i fod yn berthnasol.

Mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn edrych ar flaenraglen waith y Cabinet er mwyn nodi unrhyw gyfleoedd cyn y cam craffu y mae modd eu cyfeirio at y pedwar pwyllgor thematig.

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cefnogi datblygiad y rhaglenni gwaith unigol a'r dull o ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol.

Mae modd i Aelodau ofyn bod eitemau yn cael eu hychwanegu at y rhaglenni gwaith trwy gwblhau ffurflen gais - craffu, fel sydd wedi'i hatodi yn **Atodiad 2**.

Sesiynau Ymgysylltu'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet

Mae trafodaethau cynnar a rheolaidd rhwng Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion / Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu yn ein caniatáu ni i ddatblygu'r rhaglenni gwaith craffu. Mae'r sesiynau ymgysylltu yma'n rhoi cyfle i'r Aelodau drafod eu rhaglenni gwaith priodol a helpu i nodi unrhyw bynciau allweddol y mae angen eu cynnwys.

Mae gan y Pwyllgorau Craffu a'r Adain Weithredol rolau clir a gwahanol, ond mae modd i'r trafodaethau sy'n cynnwys yr Aelod o'r Cabinet, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu a'r Is-gadeirydd perthnasol, ar y cyd â'r swyddog arweiniol, ddatblygu rhaglen waith craffu cynhyrchiol ac sy'n osgoi dyblygu'r gwaith.

Fel arfer, cynhelir y sesiynau ymgysylltu ar ddechrau'r flwyddyn ddinesig fel y bod modd llywio'r flaenraglen waith.

Mae Aelodau'r Cabinet hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu trwy gydol y flwyddyn er mwyn rhoi diweddariad i aelodau mewn perthynas â'r portffolio perthnasol.

Adran 5

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu

Caiff cyfarfodydd rhithwir eu cynnal ar-lein gan ddefnyddio rhaglen ZOOM. Caiff dolen ei hanfon at Aelodau sy'n cynnwys rhif adnabod y cyfarfod a'r cyfrinair er mwyn i Aelodau ymuno â'r cyfarfod. Mae'r opsiwn yma'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol o ran Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae modd gweld holl gyfarfodydd rhithwir y Pwyllgorau Craffu [yma](#).

Ar wahân i gyfarfodydd ffurfiol, mae modd defnyddio sawl ffordd o weithio gwahanol:

- Ymweliad Safle (Mae'r rhain yn cael eu cynnal pan fydd Aelodau'n ceisio tystiolaeth
- Mynychu / arsylwi cyfarfodydd grŵp eraill (e.e. Cymdeithas Trigolion)
- Ymweliadau neu Gyfarfodydd Anffurfiol

Gweddarlledu / cyfarfodydd hybrid

Ar hyn o bryd mae'r Gwasanaethu Democrataidd yn cyflawni gwaith mewn perthynas â llunio strategaeth ar gyfer cynnal cyfarfodydd pwyllgor hybrid. Unwaith y bydd hi'n ddiogel i aelodau ddychwelyd i'r Siambr, bydd gyda nhw'r dewis i ddod i'r Siambr neu ymuno ar-lein gan ddefnyddio ZOOM. Mae cynlluniau hefyd ar waith er mwyn darlledu'r cyfarfodydd yn fyw. Bydd hyn yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd weld a ffrydio'r cyfarfodydd Craffu yn fyw. Bydd Aelodau'n cael eu trin yn gyfartal, p'un a ydyn nhw'n dod i'r cyfarfod neu'n ymuno ar-lein. Bydd pawb yn derbyn y dogfennau perthnasol ac yn cael mynediad i gyfleusterau pleidleisio a chyfleusterau cyfieithu, p'un a ydyn nhw yn yr ystafell ai peidio.

Rôl y Swyddogion Craffu

Mae gan y swyddog Craffu gyfrifoldeb am hyrwyddo rôl y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae Swyddogion Craffu yn darparu cyngor ac arweiniad i swyddogion ac Aelodau mewn perthynas â'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae rôl y Swyddogion Craffu'n cynnwys y canlynol:

- Cefnogi'r gwaith gweinyddu sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgorau Craffu, e.e. llunio agenda, adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd.
- Cyflawni gwaith ymchwil a dadansoddi data ar ran yr Aelodau (mae gan Gyngor RhCT Swyddog Craffu penodol a fydd yn cyflawni ceisiadau gan Aelodau Craffu i gynorthwyo â'u rolau).
- Rhoi arweiniad i Aelodau ynghylch datblygu rhaglen waith effeithiol.
- Llunio argymhellion clir ar gyfer swyddogion, fel y cytunwyd arnyn nhw gan y Pwyllgor Craffu.
- Llunio Adroddiad Blynyddol ar ran yr Aelodau.

Bydd y Swyddog Craffu bob amser yn bresennol yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae modd iddyn nhw roi cyngor a chymorth i'r Pwyllgor ar weithdrefnau, yn ogystal â chyflawni proses Trosolwg a Chraffu. Bydd y Swyddog Craffu hefyd yn cefnogi'r Cadeirydd i lunio'r argymhellion terfynol sydd wedi codi yn ystod cyfarfod y Pwyllgor. Bydd y Swyddog Craffu hefyd yn mynd ar drywydd yr argymhellion ac yn adrodd yn ôl i aelodau yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol.

Cyfleuster Ymchwil

Mae cyfleuster ymchwil craffu unigryw ar gael yn rhan o Uned Busnes y Cyngor i gynorthwyo Aelodau â'u cyfrifoldebau craffu a'u rolau'n Aelodau Etholedig. Mae ymchwil o'r fath yn cryfhau rhaglenni gwaith y Pwyllgorau er mwyn sicrhau bod pynciau sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn cael eu nodi. Gall unrhyw Aelodau sy'n dymuno defnyddio'r cyfleuster yma gwneud hynny drwy'r e-bostio: Craffu@rctcbc.gov.uk

Ymgysylltu a Chyfranogiad

Fel arfer, caiff cyfarfodydd cyhoeddus eu cynnal, oni bai bod angen trafod yr hyn sydd o dan sylw mewn cyfarfod preifat yn ôl y gyfraith. Yna, bydd y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod. Mae modd i unrhyw aelod o'r cyhoedd fynychu cyfarfod craffu er mwyn gwyllo'r cyfarfod, os ydyn nhw'n dymuno annerch y pwyllgor yna mae angen dilyn gweithdrefn benodol. Mae Cyngor RhCT wedi datblygu [Canllaw Cyfranogi i'r Cyhoedd - Trosolwg a Chraffu](#) er mwyn galluogi aelodau o'r cyhoedd i siarad yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu a rhoi gwell mynediad i'r broses graffu. Caiff neges ynghylch sut i annerch y pwyllgor craffu ei chyhoeddi ar bob agenda unigol.

Mae tudalen benodol sy'n ymwneud â gwaith [Craffu](#) ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae'r dudalen yma'n tynnu sylw at effaith y gwaith Craffu sy'n cael ei gyflawni. Mae cyfarfodydd a rhaglenni gwaith y Pwyllgorau Craffu i'w gweld ar-lein ac mae gan Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu lwyfan ar y cyfryngau cymdeithasol ar ffurf [Blog](#) unigol.

Calendr o Gyfarfodydd

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, caiff Calendr o Gyfarfodydd eu cymeradwyo yn ystod Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor. Caiff dyddiadau'r cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Caiff pob agenda ac adroddiad y Pwyllgorau Craffu eu cyhoeddi ar wefan Modern.Gov y Cyngor cyn y cyfarfod ac mae modd i aelodau'r Pwyllgor Craffu gael mynediad atyn nhw.

Mae'r blaenraglen waith yma, sy'n cynnwys manylion cyfarfodydd pwyllgor, yn galluogi aelodau i weld dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfodydd craffu ymlaen llaw er mwyn annog y cyhoedd i gymryd rhan.

Gwasanaeth Cyfieithu

Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael i holl aelodau'r Pwyllgorau Craffu i sicrhau bod gan y sawl sy'n siarad Cymraeg (Aelodau, aelodau'r cyhoedd a thystion) gyfle cyfartal i rannu gwybodaeth neu syniadau. Mae'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn sicrhau nad yw unrhyw beth sy'n cael ei ddweud yn cael ei golli, o ganlyniad i'r cyfieithu 'amser real' sy'n digwydd, ac hefyd yn sicrhau bod y cyfieithiad yn gywir.

Mae pob agenda ar gael yn Gymraeg a bydd cofnodion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gael yn Gymraeg hefyd.

Mae cofnodion y Pwyllgorau Craffu yn crynhoi'r trafodaethau a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd. Cyn rhannu'r cofnodion ag Aelodau, bydd cofnod ysgrifenedig yn cael ei rannu â'r sawl a oedd yn bresennol i sicrhau bod y cofnodion yn gywir. Mae modd gweld yr holl gofnodion o gyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu [yma](#).

**RHEOL 17 - RHEOLAU DULL GWEITHREDU – TROSOLWG A CHRAFFU
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF
FFURFLEN GALW I MEWN – CRAFFU**

RHAID I'R FFURFLEN HON:

- (A) FOD WEDI'I LLOFNODI GAN DRI AELOD SY'N RHAN O DDAU GRŴP GWLEIDYDDOL GWAHANOL (O LEIAF) (neu, yn achos aelod/aelodau nad ydynt yn rhan o grŴp gwleidyddol, yr aelod/aelodau hynny ac aelod/aelodau o un grŴp gwleidyddol).
- (B) GAEL EI HANFON MEWN E-BOST AT C. HANAGAN, CYFARWYDDWR GWASANAETH, GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD A CHYFATHREBU, GAN DDEFNYDDIO'R CYFEIRIAD CANLYNOL - craffu@rctcbc.gov.uk, NEU RHAID EI CHYFLWYNO Â LLAW I'R PAFILIYNAU - PARC HEN LOFA'R CAMBRIAN, CWM CLYDACH, CF40 2XX - O FEWN Y TERFYN AMSER A NODWYD YN Y CYFANSODDIAD.

MANYLION Y PENDERFYNIAD

Penderfyniad y Cabinet/Aelod o'r Cabinet/Arall (Dilëwch fel y bo'n briodol)

Dyddiad Cyhoeddi'r penderfyniad:.....

Testun y Penderfyniad

Y Penderfyniad sydd wedi'i Alw i Mewn (Dyfynnwch o'r cofnod o'r penderfyniad)

.....
.....
.....

Y rheswm dros alw'r penderfyniad i mewn
(Defnyddiwch daflen ar wahân os bydd angen)

Enw	Llofnod	GrŴp

Dyddiad:.....

At ddefnydd Swyddfa'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn unig.

Dyddiad ac Amser Derbyn y Ffurflen.....
Enw'r Swyddog sydd wedi'i derbyn.....

Derbyniwyd yn achos Galw i Mewn dilys:

I'w gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

Llofnod: Dyddiad:

FFURFLEN GAIS - YMCHWIL A CHRAFFU

Gwaith ymchwil arfaethedig	A yw'r eitem hon o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu - XXXXXX?	Rhagor o wybodaeth am gylch gorchwyl a focws yr Ymchwil	Beth yw'r deilliant y mae disgwyl ei weld o'r gwaith ymchwil yma?	Pa wybodaeth y dylid ei rhannu yn ystod y cyfarfod a sut dylair wybodaeth yma gael ei rhannu? (ee Adroddiad ynghyd â chyflwyniad Power Point)	Ydy'r eitem yn bodloni'r 5 Ffordd o Weithio? Integreiddio Cydwethio Hirdymor Cynnwys Atal

Atodiad 4

Trosolwg a Chraffu 2021 - 2022

Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu.

ACRONYM	
ADCG	Anhwyllder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
CADY	Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
ALNET	Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (2018)
CAY	Cyllid Anghenion Ychwanegol
ASA	Anhwyllder Sbectwm Awtistiaeth
SPC	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog
GMYaLI	Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles
GPAY	Gwasanaeth Plant ag Anghenion Ychwanegol
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ('CAMHS')
CCD	Consortiwm Canolbarth y De
DPC	Dangosydd Pynciau Craidd
AGC	Arolygiaeth Gofal Cymru
PDG	Plant sy'n Derbyn Gofal
BIPCTM	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
CWR	Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
GDG	Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (Swyddfa Cofnodion Troseddol yn flaenorol)
AdAS	Yr Adran Addysg a Sgiliau

Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. (parhad)

ACRONYM	
SAADYBC	Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar
ECPS	Gwasanaeth Seicoleg Addysg a Phlant
EDT	Carfan ar ddyletswydd mewn achos o argyfwng (Gwasanaethau Plant a Gwasanaeth Oedolion)
AHY	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
CPA	Carfan Plant Anabl
SACDA	Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg
FSM	Prydau ysgol am ddim
DCS	Dangosydd y Cyfnod Sylfaen
HCB	Hysbysiadau Cosb Benodedig
CyngACC	Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
NayC	Nam ar y Clyw
CAU / CDU	Cynllun Addysg Unigol / Cynllun Dysgu Unigol
CICD	Carfan Integredig Cymorth i Deuluoedd
GYDd	Gwasanaeth Ymyrraeth Ddwys
GAC	Gwasanaeth Addysg ar y Cyd
TGCh	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
CDU	Cynllun Datblygu Unigol
CA2	Cyfnod allweddol 2 (Blwyddyn 3,4,5 a 6 - 7-11 oed)
CA3	Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 7,8 a 9 - 11-14 oed)

Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. (parhad)

ACRONYM	
CA4	Cyfnod Allweddol 4 (Blwyddyn 10 ac 11 - 14-16 oed)
CA5	Cyfnod Allweddol 5 (Blwyddyn 12 a 13 - 16-18 oed)
IaCh	Iaith a Chwarae
ILlaCh (Saesneg)	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - Saesneg
ILlaCh (Cymraeg)	Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu - Cymraeg
FfLlaRh	Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
DCD	Dosbarth Cymorth Dysgu
MASH	Hwb Diogelu Amlasiantaeth
MAT	Mwy Abl a Thalentog
DM	Datblygiad Mathemategol
CPCP	Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth
NEET	Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
DCC	Deiliant y Cwricwlwm Cenedlaethol
PIAP	Cynllun Gweithredu Ôl-arolygiad
PLASC	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
UAD	Uned Atgyfeirio Disgyblion
DPaCh	Datblygiad Personol a Chymdeithasol
ABCh	Addysg Personol a Chymdeithasol
PDG	Grant Datblygu Disgyblion

Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. (parhad)

ACRONYM	
SIMS	System Rheoli Gwybodaeth ar gyfer Ysgolion
ThlaLI	Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd
CDY	Cynllun Datblygu'r Ysgol
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
GEY	Grant Effeithiolrwydd Ysgolion
SHEP	Rhaglen Gwella Gwyliu'r Ysgol
RhyG	Rheolwr y Gwasanaeth
Uwch Ymarferydd	Uwch Ymarferydd
ADP	Anawsterau Dysgu Penodol
GC	Gweithiwr Cymdeithasol
Deddf GCaLI (Cymru)	Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
CTTh	Carfan Teuluoedd Therapiwtig
RhC	Rheolwr Carfan
RhUD	Rhif Unigryw'r Disgybl
NG	Nam ar y Golwg
CBC	Cymhwyster Bagloriaeth Cymru
WEG	Grant y Gymraeg mewn Addysg
CSyGmA (WESP)	Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
YEPS	Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuencid

Geirfa ar gyfer y Pwyllgorau Craffu. (parhad)

ACRONYM	
GTI	Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc
CATC	Cynllun Ariannol Tymor Canolig
RhT	Rheoli'r Trysorlys
ASC	Ardoll Seilwaith Cymunedol
DD	Dangosyddion Darbodus
ACC	Adroddiad Cyflawniad Corfforaethol
CRhAC	Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol